| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cydbwyllgor GwE** |
| **DYDDIAD** | 08 Mawrth 2017 |
| **TEITL** | **Cyllideb Sylfaenol 2017/18** |
| **PWRPAS** | Cyflwyno Cyllideb Sylfaenol GwE 2017/18 (Atodiad 1) a Chyfraniadau Ariannol yr Awdurdodau i'r Cydbwyllgor (Atodiad 2) |
| **ARGYMHELLIAD** | Mabwysiadu'r gyllideb sylfaenol ar gyfer 2017/18 fel y'i cyflwynir yn Atodiad 1. |
| **AWDUR** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd |

## 1. Cyllideb Sylfaenol ("sefyll yn llonydd")

1.1 Mae cyllideb GwE yn parhau i ddatblygu ac mae bellach yn adlewyrchu ymrwymiadau busnes craidd y Model Cenedlaethol a nifer sylweddol o brosiectau a ariennir trwy grant.

1.2 Mae effaith ariannol chwyddiant/cynnydd mewn prisiau wedi'u hamcangyfrif a'u cynnwys yn y gyllideb sylfaenol (ar sail "sefyll yn llonydd"), gan gynnwys codiadau cyflog, addasiad yswiriant gwladol a chynnydd CPI.

1.3 Mae'r gyllideb yn parhau i gynnwys y llinell benodol 'Arbedion i'w ddarganfod £131,967' sefydlwyd yng nghyllideb 2016/17 gan nad oes strategaeth barhaol hyd yma ar gyfer gweithredu'r arbediad.

## 2. Uned Data

2.1 Yn dilyn cynnydd yn y gofyn am wybodaeth dadansoddi a dehongli data, penderfyniad Bwrdd Rheoli GwE 23 Medi 2016 yw sefydlu yn barhaol 1 swyddog data llawn amser ychwanegol wedi'i ariannu gan gyfraniadau ychwanegol yr awdurdodau.

## 3. Ardoll Prentisiaid

3.1 Yn ddatganiad y Canghellor (Tachwedd 2015) cyhoeddwyd deddfwriaeth newydd i godi tâl Ardoll Brentisiaeth yn weithredol o'r 1 Ebrill 2017.

3.2 Mae'r ardoll yn cael ei gyfrifo fel 0.5% o gyfanswm cost gyflog flynyddol, sef £13,080 i'r GwE.

## 4. Cyfraniad Pensiwn Cyflogwr

4.1 Mae'r actwari yn adolygu'r sefyllfa i'r Gronfa Bensiwn pob tair blynedd, gyda'r adolygiad diweddaraf, wedi'i gwblhau yn Rhagfyr 2016, yn arwain at ostyngiad yng nghyfraniad y cyflogwr cyfwerth â £101,000 y flwyddyn.

## 5. Cronfa Tanwariant

5.1 Mae'r adroddiad 'Adolygiad i 31 Ionawr 2017' (eitem flaenorol ar raglen y Cydbwyllgor) yn amcangyfrif bydd oddeutu £414,967 yn y gronfa tan wariant ar 31/03/2017.

5.2 Bydd angen clustnodi rhan briodol o'r gronfa ar gyfer unrhyw elfen o'r targed arbedion (gweler 1.3) ni all GwE ei ddarganfod yn ystod 2017/18.

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Cyllideb Sylfaenol GwE ar gyfer 2017/18

Atodiad 2 - Cyfraniadau'r Awdurdodau Lleol 2017/18

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### Y Swyddog Monitro:

Dim sylwdau o safbwynt priodoldeb

### Y Swyddog Cyllid Statudol:

Cyd-awdur yr adroddiad.